# Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

## Ymchwiliad i'r Adolygiad o Echel 2 Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007 – 2013

### Cefndir

1. Yn ei gyfarfod ar 2 Hydref, cytunodd Aelodau'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i gynnal ymchwiliad i adolygiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o Echel 2 Cynllun Datblygu Gwledig Cymru.

2. O dan Echel 2 *Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-13*[1] y caiff cynlluniau amaeth-amgylcheddol a chynlluniau rheoli tir eu hariannu. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgrifio cynlluniau amaeth-amgylcheddol fel a ganlyn[2]:

> The state (in this case the Welsh Assembly Government) buying environmental goods and services (public goods) from farmers who would otherwise not supply them

3. Enwau'r cynlluniau sydd ar waith ar hyn o bryd yw Tir Mynydd, Tir Cynnal, Tir Gofal, y Cynllun Ffermio Organig a Coetiroedd Gwell i Gymru. Ar hyn o bryd, mae tua 20 y cant o dir amaethyddol Cymru yn rhan o'r cynllun Tir Gofal[3]. Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori[4] ddiwedd mis Medi 2008 yn edrych ar gryfderau a gwendidau'r cynlluniau hyn ac yn pwyso a mesur nifer o ddewisiadau y gellid eu rhoi ar waith ar ôl cynnal yr adolygiad.

4. Ceir rhywfaint o gydnabyddiaeth nad yw'r cynlluniau hyn wedi arwain at y canlyniadau amgylcheddol a nodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn *Strategaeth Amgylchedd Cymru*. Mae adolygiad Llywodraeth Cynulliad Cymru yn nodi beth yw'r methiannau hyn. Er enghraifft, nid yw Tir Gofal yn cyfrannu at reoli risg llifogydd, gwella ansawdd dŵr na lleihau llygredd gwasgaredig – gweler Tabl 1.

5. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod mai nad hynny oedd bwriad gwreiddiol y cynlluniau. Er enghraifft, cafodd y cynlluniau eu creu cyn datblygu *Strategaeth Amgylchedd Cymru,* ac felly nid yw'r amcanion ynddynt yn cyd-fynd ag amcanion y strategaeth honno. Am y rheswm hwn, nid oes digon o waith monitro'n cael ei wneud i asesu perfformiad y cynlluniau ochr yn ochr â phrif bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer yr amgylchedd yng Nghymru.

---

[1] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007 – 2013*, Chwefror 2008
[2] Ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Cynnal y Tir: Adolygiad o Gamau Rheoli Tir o dan Echel 2 o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-13*, Hydref 2008
[3] Ystadegau Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru *Cyflwr yr Amgylchedd 2008*, Gorffennaf 2008
[4] Ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Cynnal y Tir: Adolygiad o Gamau Rheoli Tir o dan Echel 2 o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-13*, Hydref 2008

**Tabl 1: Sicrhau canlyniadau Strategaeth Amgylchedd Cymru: perfformiad y cynlluniau presennol[5]**

| Wales Environment Strategy Outcomes | Tir Cynnal | Tir Gofal | Organic Farming Scheme | Tir Mynydd | Better Woodlands for Wales |
|---|---|---|---|---|---|
| Resilience to Climate Change | No | No | Some | No | Yes |
| Water resources managed sustainably | No | No | No | No | No |
| Soil managed to retain carbon store | No | No | No | No | No |
| Flood risk managed | No | No | No | No | No |
| Water quality improved | No | No | No | No | Yes |
| Diffuse pollution reduced | No | No | Yes | No | No |
| Landscape/catchment scale | No | No | No | No | No |
| Biodiversity recovery | Yes | Yes | No | No | Yes |
| Wider environment more favourable | Yes | Yes | Some | No | Yes |
| Sites favourable | No | Yes | No | No | Yes |
| Landscape maintained | No | Yes | Yes | No | Yes |
| Access improved | No | Yes | No | No | Yes |
| Historic building stock maintained | Yes | Yes | No | No | No |

6. Ar ôl cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad byr er mwyn gwneud y canlynol:

- Canfod barn y prif randdeiliaid am y dewisiadau a gynigir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
- Asesu effaith bosibl y dewisiadau hyn
- Craffu ar ddull gweithio Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y maes hwn

7. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan saith o sefydliadau:

- NFU Cymru
- Undeb Amaethwyr Cymru
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Canolfan Organig Cymru
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Yr RSPB

8. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i'w ymchwiliad gydredeg gydag amserlen ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer yr adolygiad. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i bawb a baratôdd dystiolaeth, yn ysgrifenedig ac ar lafar, yn enwedig gan y gwnaed hyn mewn cyfnod cymharol fyr.

[5] Ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru *Cynnal y Tir: Adolygiad o Gamau Rheoli Tir o dan Echel 2 o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-13* Tudalen 18, Hydref 2008

## Crynodeb o'r prif faterion

### Y brys am yr adolygiad

9. Mae'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru wedi cyfrannu'n sylweddol tuag at greu'r tirwedd sydd gennym yng Nghymru – tirwedd sy'n cynnal amrywiaeth eang o gynefinoedd, rhywogaethau ac ecosystemau – a bydd yn parhau'n ganolog i'r broses o gynnal a chadw'r tirwedd hwnnw.

10. Ers yr Ail Ryfel Byd, mae newidiadau mewn prosesau amaethyddol wedi golygu bod ffermydd yn cynhyrchu mwy, ac mae hynny yn ei dro wedi effeithio ar yr amgylchedd ac wedi arwain at ostyngiad yn nifer ac amrywiaeth y rhywogaethau sy'n byw yng nghefn gwlad Cymru. Yn ôl Llywodraeth Cynulliad Cymru:

> This increase in productivity has come at an environmental cost[6]

11. Mae mentrau megis cynlluniau amaeth-amgylcheddol wedi bod yn bwysig wrth helpu'r diwydiant amaethyddol i addasu arferion penodol, lleihau effeithiau amgylcheddol a darparu er budd y cyhoedd. Yn ôl tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor[7]:

> Mae llawer o'r cynlluniau rheoli tir sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Datblygu Gwledig presennol Cymru wedi tarddu o'r 1990'au hwyr. Er eu bod wedi cael eu newid yn fwy diweddar, nid ydynt yn cyd-fynd yn arbennig o dda â'r sialensiau newydd sy'n datblygu megis newid yn yr hinsawdd a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dwr ac nid ydynt ychwaith yn adlewyrchu'r diwygiadau mawr i'r PAC a ragwelir ar gyfer 2013.

12. Am resymau tebyg, cafodd yr adolygiad groeso gan nifer o'r tystion a deimlai fod hwn yn gyfle i edrych ar gynlluniau rheoli tir yng nghyd-destun yr heriau amgylcheddol sy'n ein hwynebu. Roedd rhai o'r tystion hefyd yn falch fod yr adolygiad yn cydnabod maint a natur yr heriau hyn.

13. Credai'r RSPB fod yr adolygiad yn amserol, yn enwedig yng nghyd-destun yr angen i ymateb ar frys i'r dirywiad mewn bioamrywiaeth:

> This Axis 2 review represents the best, if not last, realistic chance to save these species on Wales' farmland and the Welsh Assembly Government's only hope of making progress towards arresting declines in biodiversity[8].

14. Er gwaethaf y brys hwn, clywodd y Pwyllgor nad yw cyflawni'r newid sy'n angenrheidiol er mwyn mynd i'r afael â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yn dasg cwbl amhosibl, a bod ffermwyr yng Nghymru hyd yn hyn yn gallu dangos enghreifftiau o waith rhagorol.

15. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r adolygiad hwn ac yn credu ei fod yn amserol, nid yn unig o ran yr heriau amgylcheddol sy'n wynebu cefn gwlad Cymru ond hefyd o ran y diwygiadau i'r Polisi Amaethyddol Cyffredinol yn y dyfodol. Mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd yr adolygiad yn un trylwyr ac yn sail i drafodaethau parhaus â rhanddeiliaid, yn ogystal â thrafod cyhoeddus ar ddyfodol y cynlluniau a'r budd i'r cyhoedd yn eu sgil.

### Yr effaith ar incwm ffermydd

16. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y bydd unrhyw newidiadau i'r cynlluniau Echel 2 sy'n deillio o'r adolygiad yn cael effaith sylweddol ar incwm ffermwyr yng Nghymru.

---

[6] Ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Cynnal y Tir: Adolygiad o Gamau Rheoli Tir o dan Echel 2 o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-13*, Hydref 2008, tudalen 4
[7] *Tystiolaeth ysgrifenedig* Cyngor Cefn Gwlad Cymru
[8] *Tystiolaeth ysgrifenedig* yr RSPB

17. Yn 2006, roedd trefniadau Tir Gofal yn berthnasol i 20 y cant o arwynebedd tir amaethyddol Cymru[9]. Mae 76 y cant o arwynebedd tir Cymru yn gymwys i gael cymorth Tir Mynydd. Yn 2006, cymeradwywyd 10,400 o geisiadau Tir Mynydd, a rheini'n werth £34.8 miliwn. Yn 2006-07, talwyd £18.2 miliwn mewn grantiau Tir Gofal, a £6.2 miliwn mewn grantiau Tir Cynnal. O roi'r ddau gynllun ynghyd, roedd hyn yn gyfystyr â thua 7,600 o gytundebau[10].

18. Roedd undebau'r ffermwyr yn pryderu y byddai unrhyw newidiadau yn arwain at ailddosbarthu adnoddau ac roeddent yn awyddus i bwysleisio pwysigrwydd taliadau Echel 2 fel modd o roi sefydlogrwydd a ffynhonnell incwm amrywiol i nifer o ffermwyr.

19. Roedd NFU Cymru yn pryderu ynghylch effaith unrhyw newidiadau sylweddol ar incwm ffermydd, a dyfynnwyd ffigurau a ddangosai fod Echel 2 yn cyfrannu at tua 27 y cant o incwm y ffermydd sy'n cael grantiau Echel 2. I'r rhai sy'n cael grant Tir Mynydd, mae'r cyfraniad yn nes at 47 y cant[11]. Dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru y byddai dewisiadau 2 a 3 yn arwain at newid aruthrol o ran symud adnoddau yng Nghymru ac y byddai rhai pobl ar eu helw a rhai ar eu colled[12].

20. Fodd bynnag, gan gydnabod y byddai arian yn cael ei ailddosrannu, teimlai'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol:

> … Any change in scheme structure will have repercussions. This is acceptable in order to achieve a more sustainable system, providing sufficient support is in place during the transitional period[13].

21. Mae cefn gwlad Cymru yn rhoi tirwedd i gymunedau allu byw a gweithio ynddynt, ac mae cynlluniau fel Tir Mynydd wedi bod yn bwysig wrth gynnal strwythur y diwydiant amaethyddol ar ucheldiroedd Cymru. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i gynlluniau amaeth-amgylcheddol ddarparu er budd y cyhoedd, a bod yn rhaid i hyn fod yn amcan pendant iddynt yn y tymor canolig. Felly, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu trefniadau pontio addas dros gyfnod o amser a fydd yn galluogi'r diwydiant i addasu i'r newidiadau sydd eu hangen.

### *Newid diwylliant*

22. Un o'r themâu a ddaeth i'r amlwg drwy gydol yr ymchwiliad oedd yr angen i newid diwylliant yn y diwydiant amaethyddol er mwyn sicrhau canlyniadau amgylcheddol .

23. Mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn rhai gwirfoddol. Felly, mae ennyn cefnogaeth a dealltwriaeth y diwydiant amaethyddol yn hanfodol i sicrhau bod y cynlluniau'n llwyddo a bod digon o bobl yn rhan ohonynt. Dywedodd NFU Cymru wrth y Pwyllgor fod deall yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ceisio'i gyflawni yn bwysig er mwyn i'r diwydiant allu cefnogi hynny.

24. Pan ofynnwyd cwestiynau am yr angen i newid diwylliant yn y diwydiant amaethyddol er mwyn cael cefnogaeth i unrhyw newidiadau sylweddol, roedd Undeb Amaethwyr Cymru yn pryderu nad oedd amserlen Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi digon o amser er mwyn gwneud hynny[14]. Roedd yr Undeb hefyd yn credu nad oedd y ddogfen ymgynghori'n cynnwys digon o fanylion i'r diwydiant allu ystyried yr holl ddewisiadau[15].

---

[9] Llywodraeth Cynulliad Cymru *Ystadegau Amaethyddol Cymru 2007* tudalen 75
[10] Llywodraeth Cynulliad Cymru *Ystadegau Amaethyddol Cymru 2007* tudalennau 68 a 75
[11] *Tystiolaeth ysgrifenedig* NFU Cymru
[12] *Tystiolaeth ysgrifenedig* Undeb Amaethwyr Cymru
[13] *Tystiolaeth ysgrifenedig* yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
[14] *Tystiolaeth lafar* Undeb Amaethwyr Cymru
[15] *Tystiolaeth lafar* Undeb Amaethwyr Cymru

25. Clywodd y Pwyllgor hefyd fod y manteision ehangach yn allweddol er mwyn sicrhau cefnogaeth y diwydiant. Mae hyn yn cynnwys y manteision cymdeithasol-economaidd ac ailgyflwyno nifer o'r sgiliau traddodiadol sydd wedi cael hwb gan gynlluniau fel Tir Gofal. Dywedodd adroddiad ar Tir Gofal a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2007[16]:

> Amcangyfrifodd adolygiad annibynnol yn 2005 fod y £11.2 miliwn a dalwyd i ddeiliaid cytundebau Tir Gofal yn 2003 wedi creu gwariant ychwanegol yn yr economi o £4.2 miliwn a 112 o swyddi. Roedd y rhan fwyaf o'r fantais ariannol wedi'i chadw gan ffermwyr, er bod manteision sylweddol i gontractwyr lleol hefyd.
>
> Rhoddodd cyfranogwyr yn ein grwpiau ffocws werth ar y manteision economaidd lleol a sicrhawyd gan Tir Gofal, yn arbennig ar gyfer swyddi traddodiadol megis plannu a phlygu gwrychoedd a chodi waliau, ac yng Ngogledd Cymru credent fod hyn yn bwysig i gynnal cymunedau Cymraeg bach.

26. Er mwyn sicrhau canlyniadau amgylcheddol, mae'r Pwyllgor yn credu bod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyfraniad allweddol i'w wneud wrth arwain y newid diwylliannol sy'n angenrheidiol yn y diwydiant amaethyddol. Mae cynlluniau Echel 2 yn rhan ganolog o'r rhaglen hon. Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed y tystion yn dweud bod y cynlluniau hyd yma wedi helpu i newid diwylliant, ac felly hefyd y manteision ehangach sy'n deillio o gynlluniau fel Tir Gofal. Rydym yn pryderu na fydd y diwydiant yn barod am y diwygiadau disgwyliedig i'r Cynllun Amaethyddol Cyffredin ar ôl 2013 os na ellir annog mwy o newid yn y sector. O ganlyniad, mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn hanfodol cael trefniadau pontio effeithiol (gweler isod).

### *Amserlenni a threfniadau pontio*

27. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod nifer o'r tystion yn pryderu am broses ac amserlen yr adolygiad. Yn benodol, roedd rhai o'r tystion yn pryderu na fyddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gallu cyflwyno'r newidiadau a fyddai'n deillio o'r adolygiad erbyn 2010, sef y dyddiad a bennodd ar gyfer gwneud hynny.

28. Pwysleisiodd NFU Cymru:

> It has taken two years to get a consultation document out and we are at the beginning of a process and not at the end[17].

29. Awgrymodd Undeb Amaethwyr Cymru y gallai fod gwerth mewn peidio â gwneud unrhyw newidiadau yn ystod cyfnod y Cynllun Datblygu Gwledig presennol, gyda'r nod o gyflwyno unrhyw newidiadau ar ddechrau'r Cynllun Datblygu Gwledig newydd yn 2013. Mae'n credu y byddai hyn yn rhoi gwell cyfle i ennyn cefnogaeth y diwydiant ac i fwrw ati'n ddiymdroi gyda'r Cynllun nesaf[18].

30. Ar sail eu profiad o baratoi a darparu cynlluniau amaeth-amgylcheddol, roedd Cyngor Cefn Gwlad Cymru hefyd yn pryderu y byddai'n anodd rhoi system newydd ar waith yn ystod y cyfnod dan sylw. Byddai angen buddsoddi mewn amser ac arbenigedd sylweddol, a hynny ymhlith amrywiaeth o sefydliadau, er mwyn rhoi unrhyw gynlluniau ar waith yn llwyddiannus[19].

31. Teimlai tystion y byddai trefniadau pontio, hyfforddiant, canllawiau a chyngor i gyd yn hanfodol er mwyn ennyn cefnogaeth y diwydiant ac amharu cyn lleied â phosibl ar y trefniadau presennol:

> We need an end point for each stage, and that needs to be explicitly spelt out to the farming community so that it understands the direction in which we are going[20]

[16] Swyddfa Archwilio Cymru, *Tir Gofal* 2007, tudalen 6
[17] *Tystiolaeth lafar* NFU Cymru
[18] *Tystiolaeth lafar* Undeb Amaethwyr Cymru
[19] *Tystiolaeth ysgrifenedig* Cyngor Cefn Gwlad Cymru
[20] *Tystiolaeth lafar* Yr RSPB

32. Yn ôl yr RSPB, byddai angen cynllunio a rheoli'r trefniadau hyn yn ofalus iawn er mwyn sicrhau parhad yn y trefniadau Tir Gofal presennol a galluogi pawb sy'n dymuno bod yn rhan o'r cynllun newydd i ymuno'n ddiffwdan[21].

### *Prinder gwybodaeth*

33. Yn gyffredinol, y tu hwnt i ddewisiadau 1a ac 1b, clywodd y Pwyllgor fod y tystion yn pryderu mai ychydig yn unig o wybodaeth a oedd ar gael er mwyn asesu effaith y cynigion ar ffermwyr ac ar yr amgylchedd. Dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru:

> Because of the lack of detail on options 2 and 3, it is very difficult to see how we will engage farmers to look beyond option 1[22]

Dywedodd hefyd:

> You will need far more than a few paragraphs in a consultation paper[23]

34. Roedd NFU Cymru yn cytuno â'r farn hon:

> We have some difficulty in envisaging what the proposed schemes under options 2 and 3 might look like[24]

35. Ym marn y Pwyllgor, wrth beidio â darparu digon o fanylion, nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sicrhau bod modd edrych yn fanwl ar bob dewis ac mae hyn wedi cyfyngu ar y drafodaeth. Mae'r Pwyllgor felly yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu llawer mwy o wybodaeth fanwl fel sail i drafodaethau gwell.

### *Y cynlluniau presennol*

*Sicrhau canlyniadau amgylcheddol*

36. Roedd y tystion yn cytuno nad oedd y cynlluniau presennol yn helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyrraedd targedau *Strategaeth Amgylchedd Cymru*. Mae'n hanfodol pwysleisio'r ffaith a nodwyd yn ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad ei hun, sef **nad** cyrraedd targedau *Strategaeth Amgylchedd Cymru* oedd bwriad gwreiddiol y cynlluniau, ac mai dyma gyd-destun yr adolygiad hwn (gweler Tabl 1).

Cafwyd cryn drafod ynghylch un o'r prif ganlyniadau a nodir yn *Strategaeth Amgylchedd Cymru*, sef adfer bioamrywiaeth. Dywedodd yr RSPB wrth y Pwyllgor fod angen ymateb i'r sefyllfa hon ar frys:

> The Government's own biodiversity indicator [which] showed that we had lost 5 per cent of species at the 2005 record[25]

37. Cyflwynodd yr RSPB ddata i'r Pwyllgor hefyd ynghylch adar tir fferm. Roedd 15,000 pâr o gornchwiglod yn bodoli yn y 1970au, ond gostyngodd y ffigur hwnnw i 7,500 o barau ym 1987 a 1,700 ym 1998. Erbyn heddiw, mae'r RSPB yn amcangyfrif bod y boblogaeth ymhell o dan 1,000. Dyfynnodd yr RSPB ffigurau o arolwg a gynhaliwyd o adar magu yn 2007 a oedd yn dangos gostyngiad o 47 y cant yn niferoedd melyn yr eithin rhwng 1994 a 2007, gostyngiad o 33 y cant yn niferoedd y gylfinir a gostyngiad o 53 y cant yn niferoedd y drudwy yn yr un cyfnod[26].

38. Ar y llaw arall, roedd Undeb Amaethwyr Cymru yn pryderu bod pobl yn cael eu camarwain ynghylch y mater hwn:

[21] *Tystiolaeth ysgrifenedig* yr RSPB
[22] *Tystiolaeth lafar* Undeb Amaethwyr Cymru
[23] *Tystiolaeth lafar* Undeb Amaethwyr Cymru
[24] *Tystiolaeth lafar* NFU Cymru
[25] *Tystiolaeth lafar* Yr RSPB
[26] *Tystiolaeth ysgrifenedig* yr RSPB

… Sometimes the picture of the acceleration of the loss [of biodiversity] is promoted when that is not what is happening on the ground”.[27]

39. Dywedodd yr Undeb hefyd fod y dirywiad hwn yn ‘hanesyddol’.

40. Ynghyd â’r dystiolaeth hon, clywodd y Pwyllgor gan dystion eraill fod y cynlluniau amaeth-amgylcheddol **wedi** arwain at rai manteision i amgylcheddau tir fferm. Yn ôl yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, gwelwyd nifer o fanteision mewn rhai ardaloedd, yn enwedig o ran bioamrywiaeth ar ffermydd a chadw nodweddion hanesyddol[28].

41. Mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol wedi llwyddo i sicrhau bioamrywiaeth a manteision amgylcheddol sylweddol eraill mewn rhai ardaloedd. Er hynny, yn gyffredinol, roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod bioamrywiaeth yn dal i ddirywio ar gyfradd frawychus. Mae’r Pwyllgor yn credu bod y dirywiad mewn bioamrywiaeth yn fater hynod o bwysig a bod gan reolwyr tir gyfraniad allweddol i’w wneud i geisio lleihau’r dirywiad mewn rhywogaethau ac yng nghyflwr cynefinoedd Cymru. Rhaid i gynlluniau amaeth-amgylcheddol gyrraedd targedau bioamrywiaeth, sy’n un o brif amcanion *Strategaeth Amgylchedd Cymru*.

42. Mae’r Pwyllgor yn pryderu’n arw nad yw amcanion y cynlluniau hyn yn cyd-fynd yn foddhaol â *Strategaeth Amgylchedd Cymru*. Mae’r Pwyllgor yn credu bod *Strategaeth Amgylchedd Cymru* yn darparu’r fframwaith cyffredinol ar gyfer polisïau amgylcheddol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn y dyfodol, dylai pob cynllun amaeth-amgylcheddol gael amcanion clir a dylent gyd-fynd â’i gilydd er mwyn cyflawni’r amcanion hynny.

*Monitro annigonol*

43. Roedd y Pwyllgor yn pryderu’n arw ei bod yn anodd mesur llwyddiant y cynlluniau presennol gan nad oes digon o ffyrdd ar gael o’u monitro, neu oherwydd prinder gwaith monitro yn gyffredinol.

44. Yn ôl adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru[29]:

> There is some evidence to suggest that the activities funded by the scheme should benefit habitats. However, there is only limited evidence about the extent to which beneficial changes to habitats can be attributed to Tir Gofal rather than other factors. Also, there is a lack of comprehensive data on Welsh habitats and how they are changing over time. This makes it difficult to put the achievements of Tir Gofal into context.

45. Dywedodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru[30]:

> Efallai na fu’r rhaglenni monitro yn ddigon cynhwysfawr neu efallai iddynt gael eu sefydlu’n gymharol hwyr; efallai nad oedd adnoddau digonol ar gael i’r rhaglenni monitro neu efallai eu bod wedi gweithredu ar raddfa rhy fanwl; efallai fod cynlluniau wedi cael eu dylunio at ddibenion gwahanol i'r rhai yr ydym am iddynt eu cyflawni erbyn hyn neu efallai fod canlyniadau prosiectau monitro yn cymryd yn hwy i ddod i law nag y byddem yn dymuno.

46. Cyfeiriodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol at rywbeth tebyg, gan ddweud bod y gwaith o fonitro’r cynlluniau presennol wedi bod yn annigonol. O ganlyniad, mae’n rhaid dibynnu’n helaeth ar dystiolaeth anecdotaidd i gadarnhau bod y cynlluniau yn arwain at fanteision amgylcheddol[31].

47. Ar hyn o bryd, mae Tir Gofal a Tir Cynnal yn cynnwys amcanion ar gyfer gwarchod tirwedd a chadwraeth nodweddion hanesyddol.

---

[27] *Tystiolaeth lafar* Undeb Amaethwyr Cymru
[28] *Tystiolaeth ysgrifenedig* yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
[29] Swyddfa Archwilio Cymru, *Tir Gofal* 2007, tudalen 6
[30] *Tystiolaeth ysgrifenedig* Cyngor Cefn Gwlad Cymru
[31] *Tystiolaeth lafar* Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

> Our experience and anecdotal evidence convinces us that the schemes are delivering improvements to the historic environment. This has not been monitored and no data on the impact is available. There is an urgent need for historic environment indicators and outcome monitoring[32].

48. Dywedodd Canolfan Organig Cymru rywbeth tebyg, gan nodi mai ychydig yn unig o waith ymchwil trylwyr oedd wedi'i wneud i lwyddiant cynlluniau ffermio organig yng Nghymru pan oedd i'r rheini amcanion amgylcheddol[33].

49. O ran diwygiadau pellach i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin ar ôl 2013, dywedodd yr RSPB wrth y Pwyllgor ei bod yn hanfodol cael cynlluniau yng Nghymru ac iddynt amcanion clir y gellir eu monitro. Erbyn 2013 a 2015, rhaid i Gymru fod mewn sefyllfa i ddangos i'r Undeb Ewropeaidd bod cynlluniau datblygu gwledig yn arwain at ganlyniadau clir am yr arian cyhoeddus sy'n cael ei wario.

50. Mae'r Pwyllgor yn credu bod yn rhaid sefydlu rhaglenni monitro digonol cyn gynted â phosibl er mwyn deall effaith y cynlluniau, mesur eu llwyddiant ac asesu eu cyfraniad at amcanion amgylcheddol Cymru. At hynny, mae'n hanfodol bod y cynlluniau hyn yn gallu dangos canlyniadau pendant a dangos eu bod yn darparu er budd y cyhoedd yn sgil y cyllid a fuddsoddwyd.

Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai hyn fod yn flaenoriaeth ar unwaith i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

*Tir Mynydd*

51. Roedd Undeb Amaethwyr Cymru yn pryderu nad oedd asesiad Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi sylw i'r manteision amgylcheddol sy'n dod yn sgil y cynlluniau presennol, ac yn benodol drwy Tir Mynydd. Yn yr un modd, gwelai Cyngor Cefn Gwlad Cymru yr adolygiad yn gyfle i aildrefnu Tir Mynydd er mwyn sicrhau gwell rheolaeth o garbon pridd, adnoddau dŵr a bioamrywiaeth. Dywedodd:

> The issue is not that Tir Mynydd does not deliver public goods – I concur with the points that FUW and NFU made, that these schemes often deliver environmental benefits – but whether the design of the scheme is the best way of doing that. We are not convinced that it is[34].

*Tir Gofal*

52. Roedd cytundeb cyffredinol bod y diwydiant yn croesawu'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol presennol. Roedd y tystion yn cytuno hefyd eu bod wedi newid diwylliant y byd amaeth i ryw raddau ynghyd â sicrhau manteision economaidd-gymdeithasol ehangach. Dylid cynnal y momentwm sydd wedi'i greu drwy Tir Gofal. Yn ôl Asiantaeth yr Amgylchedd[35]:

> The broad range of agri-environment and land management schemes that have been in operation in Wales have been developed over a number of years. Many of the schemes have excellent attributes. When you talk to farmers, you will find that these schemes are popular with the farming community.

53. Yn ôl yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r RSPB, un o brif fanteision Tir Gofal oedd yr elfen 'fferm gyfan', sef edrych ar y fferm yn ei chyfanrwydd a rhoi cyfleoedd i ddatblygu amodau neu gamau sy'n mynd i'r afael â bioamrywiaeth ar lefel y rhywogaethau. Roedd teimlad hefyd bod y ffaith fod gan y cynllun nifer o amcanion a'i fod yn rhoi sylw i amryw o faterion gwahanol yn fanteisiol. Credai'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol fod Tir Gofal wedi arwain at fanteision sylweddol i'r amgylchedd hanesyddol.

54. Fodd bynnag, rhoddwyd enghreifftiau o ddiffyg hyblygrwydd o dan drefniadau Tir Gofal, a hynny wedi arwain at ddirywiad yng nghyflwr amgylcheddol safleoedd penodol. Dywedwyd fod yr 'amodau' o dan Tir Gofal yn achosi problemau, ac roedd y tystion yn credu y byddai dull wedi'i seilio ar y

---

32 *Tystiolaeth ysgrifenedig* yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
33 *Tystiolaeth lafar* Canolfan Organig Cymru
34 *Tystiolaeth lafar* Cyngor Cefn Gwlad Cymru
35 *Tystiolaeth lafar* Asiantaeth yr Amgylchedd

canlyniadau yn galluogi ffermwyr i sicrhau'r canlyniadau angenrheidiol gyda chymorth swyddog prosiect.

*Tir Cynnal*

55. Teimlai'r tystion a gyfeiriodd at Tir Cynnal nad oedd y cynllun hwnnw'n canolbwyntio digon ar ganlyniadau ac nad oedd cymhlethdod y broses o wneud cais yn arwain at ddigon o fanteision amgylcheddol. Roedd cynrychiolydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn pryderu nad oedd y cynllun yn arwain at fanteision ychwanegol, ond dywedodd:

> The most significant benefit is that it encourages farmers to think about going further[36]

56. Roedd yr RSPB yn pryderu nad oedd Tir Cynnal wedi cyflawni'r hyn y gobeithiwyd ei gyflawni gan fod y cyfan wedi datblygu'n broses weinyddol o dicio blychau[37].

57. Nid ydym yn credu bod annog ffermwyr i feddwl am fynd gam ymhellach yn ddigon – mae angen gwneud mwy i sicrhau canlyniadau pendant a chadarnhaol. Dylid targedu unrhyw arian a fydd ar gael yn y dyfodol er mwyn sicrhau gwelliannau gwirioneddol o dan y cynllun Tir Gofal neu er mwyn edrych ar gynlluniau peilot. Dylai cynnydd mewn cyllid fod wedi'i gyfyngu i sicrhau canlyniadau clir sy'n darparu er budd y cyhoedd.

*Y Cynllun Ffermio Organig*

58. Dywedodd Canolfan Organig Cymru wrth y Pwyllgor fod gwaith ymchwil sylweddol yn dangos manteision i fioamrywiaeth yn sgil y system organig. Trafodwyd manteision ffermio organig hefyd mewn perthynas â charbon pridd a rheoli dŵr. Er hynny, clywodd y Pwyllgor mai ychydig yn unig o waith ymchwil oedd wedi'i wneud i asesu pa mor llwyddiannus oedd y Cynllun Ffermio Organig yng **Nghymru** o ran sicrhau manteision amgylcheddol.

*Coetiroedd Gwell i Gymru*

59. Ni ddaeth unrhyw dystiolaeth benodol i law'r Pwyllgor ynghylch y cynllun *Coetiroedd Gwell i Gymru*.

### ***Dewisiadau posibl***

60. Nid oedd y tystion yn cytuno ar ba ddewis yr oeddent o'i blaid. Teimlai llawer ohonynt nad oedd yr un o'r dewisiadau'n ddelfrydol, ac roedd y tystion i gyd yn pryderu mai ychydig iawn o fanylion oedd yn yr ymgynghoriad fel sail i allu barnu. Fel Pwyllgor, rydym yn cytuno â'r farn hon a byddem yn hoffi gweld rhagor o drafod rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r prif randdeiliaid er mwyn gallu asesu effaith unrhyw newidiadau a fydd yn deillio o'r adolygiad.

61. Roedd yn well gan NFU Cymru ddewisiadau 1(a) neu 1(b), a theimlai y byddai dewis y rhain yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddefnyddio'r cyfnod hyd at 2013 i ddatblygu cynllun newydd. Roedd Undeb Amaethwyr Cymru yn cytuno â'r farn hon, a dywedodd ei bod pryderu ynghylch gwneud newidiadau pellgyrhaeddol i'r dull o roi taliadau i ffermwyr yng Nghymru (yn gysylltiedig â dewisiadau 2 a 3)[38] ac effaith hynny ar fusnesau ffermio a'r amgylchedd[39].

[36] *Tystiolaeth lafar* Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
[37] *Tystiolaeth lafar* Yr RSPB
[38] *Tystiolaeth ysgrifenedig* Undeb Amaethwyr Cymru
[39] *Tystiolaeth lafar* Undeb Amaethwyr Cymru

62. Nid oedd Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn ffafrio unrhyw ddewis, gan nad oedd digon o fanylion ar gael. Fodd bynnag, awgrymodd:

> Byddai'n bosibl addasu Tir Mynydd ar hyd y llinellau a awgrymir yn opsiwn 1B, ynghyd â newid Tir Gofal a'i gadw ar agor i ymgeiswyr newydd. Ar yr un pryd, gellid defnyddio'r arian a gâi ei arbed drwy ddod â Tir Cynnal i ben i dreialu rhai o elfennau allweddol y dull gweithredu a dargedir yn fanwl, sy'n cael ei ddisgrifio yn nhrydydd opsiwn y ddogfen ymgynghori (byddai'n dda o beth treialu'r cynlluniau pa opsiwn bynnag a gaiff ei ddewis)[40]

63. Nid oedd Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn teimlo bod angen cynyddu'r gyllideb ar gyfer Tir Mynydd, fel yr oedd y ddogfen ymgynghori'n ei awgrymu. Yn y cyfamser, byddai'n hoffi gweld rhagor o ymchwil i ddewis 2 ar sail y gwersi a ddysgwyd uchod, gyda golwg ar gyflwyno hyn ar ddechrau'r Cynllun Datblygu Gwledig nesaf yn 2014. Meddai'r tyst:

> We still feel that it would be better to move, by around 2013, towards something like one of the Option 2 measures[41].

64. Teimlai Asiantaeth yr Amgylchedd mai dewis 3 oedd yn rhoi'r potensial mwyaf i gyflawni amcanion Strategaeth Amgylchedd Cymru a blaenoriaethau'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer datblygu gwledig.

65. Yn ôl yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, roedd rhinweddau i bob dewis, ond nid oedd yr un ohonynt yn ddelfrydol. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn ffafrio dewis 2, oherwydd ei fod yn gymharol syml ac yn debyg i'r pyramid amaeth-amgylcheddol presennol. Mae'r dewis hwn hefyd yn golygu bod modd rhoi sylw i amrywiaeth eang o faterion amgylcheddol a thargedu blaenoriaethau mewn lleoliadau penodol. Fodd bynnag, roedd yr Ymddiriedolaeth yn credu bod angen gwneud mwy o waith ar y dewis hwn, yn arbennig gan y byddai'r elfen sylfaenol yn cael ei datblygu o'r cynllun Tir Mynydd. Ni chafodd y cynllun hwnnw ei greu yn wreiddiol fel cynllun amaeth-amgylcheddol, ac mae'n wir hefyd nad yw'r lefel sylfaenol yn newis 2 yn cyfeirio at yr effaith ar bridd na dŵr.

66. Yn ôl yr RSPB, nid oedd parhau â'r sefyllfa bresennol yn ddewis, nid yn unig o safbwynt amgylcheddol, ond gan nad oedd hynny ychwaith yn cyd-fynd â chyfeiriad polisi'r Comisiwn Ewropeaidd. Roedd yr RSPB hefyd yn ffafrio dewis 2, ac yn awgrymu y gallai rhoi holl arian Echel 2 mewn un gyllideb arwain at fwy o ganlyniadau amgylcheddol am yr arian hwnnw.

67. Wrth ymateb i'r dystiolaeth a ddaeth i law, a chan ystyried y prinder manylion sydd ar gael, y dewis y byddem yn ei ffafrio yn y tymor byr yw dewis 1b. Credwn y byddai unrhyw newid mawr i'r trefniadau presennol yn amharu'n ddifrifol ar y diwydiant amaethyddol, yn enwedig ar yr ucheldiroedd, a dylid cael cyfnod sylweddol o amser i baratoi ar gyfer newidiadau o'r fath. Hoffem weld Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflwyno camau i wella gallu'r cynllun Tir Mynydd i sicrhau canlyniadau amgylcheddol. Dylid gwneud rhywfaint o newidiadau i Tir Gofal er mwyn sicrhau bod y cynllun hwn hefyd yn cyrraedd targedau allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dylid targedu unrhyw arian a fydd ar gael yn y dyfodol pe bai Tir Cynnal yn dod i ben er mwyn sicrhau gwelliannau o dan y cynllun Tir Gofal neu er mwyn edrych ar gynlluniau peilot. Dylai'r cynlluniau geisio sicrhau canlyniadau clir sy'n darparu er budd y cyhoedd.

68. Fodd bynnag, ni fydd y trefniant hwn yn dderbyniol yn y tymor canolig i'r tymor hir, ac mae'r Pwyllgor yn teimlo ei bod yn hanfodol paratoi ffermwyr ar gyfer diwygiadau i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn y dyfodol. Hoffem weld Llywodraeth Cynulliad Cymru yn symud tuag at fodel sydd wedi'i seilio ar ddewis 2 ar ôl 2013. Bydd angen cael trefniadau pontio cadarn ynghyd â dulliau cryf o fonitro sy'n dangos y canlyniadau a ddaw yn sgil cynlluniau Echel 2.

[40] *Tystiolaeth ysgrifenedig* Cyngor Cefn Gwlad Cymru
[41] *Tystiolaeth lafar* Cyngor Cefn Gwlad Cymru

### *Gofynion cynlluniau'r dyfodol*

*Canlyniadau*

69. Roedd nifer o'r tystion o blaid dull wedi'i seilio ar ganlyniadau. Roedd Undeb Amaethwyr Cymru yn awyddus i weld y syniad hwn yn cael ei archwilio, a theimlai ei fod yn rhoi rhagor o gyfleoedd i ffermwyr sicrhau canlyniadau amgylcheddol[42].

> An output-based approach is also a system worthy of further examination as this would allow more flexibility and provide an opportunity to utilise a farmer's historic knowledge of his farm, rather than opt for a prescriptive approach that may not provide the desired outcomes[43].

70. Trafododd Cyngor Cefn Gwlad Cymru hefyd y syniad o daliadau yn ôl canlyniadau, gan ddweud y byddai o blaid archwilio'r syniad. Dywedodd yr RSPB:

> We want to see outcome-focused prescriptions … and we would like to see more outcome-focused monitoring[44]

*Dull sy'n cynnwys haenau*

71. Pwysleisiodd Asiantaeth yr Amgylchedd bwysigrwydd cael dull sy'n cynnwys haenau:

> It is important to have a tiered approach in future land management schemes because it makes options available to farmers to participate[45].

72. Roedd yr RSPB yn cytuno, ac yn teimlo bod hyn yn golygu darparu haen isaf y gallai pob ffermwr fod yn rhan ohoni pe dymunent, tra gallai'r haen uwch fod yn fwy penodol a manwl.

*Yr elfen genedlaethol*

73. Drwy sicrhau bod elfen genedlaethol yn perthyn i gynlluniau'r dyfodol, law yn llaw ag unrhyw dargedu gofodol neu ddaearyddol, bydd modd sicrhau y gellir ymateb i heriau amgylcheddol drwy Gymru i gyd.

74. Yn ôl yr RSPB, roedd llwyddiant cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn dibynnu ar sicrhau bod digon o ffermydd yn rhan o'r cynlluniau i wneud gwahaniaeth. Mae hyn yn gysylltiedig â'r swm o arian sydd ar gael ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylcheddol, ond mae'n ymwneud hefyd â darparu elfen genedlaethol. Pwysleisiodd yr RSPB bod bioamrywiaeth yn dirywio ledled Cymru.

> Some species are very restricted, and we could tackle those declines through more targeted and focused programmes in those areas, but if we only did that we would not be solving the whole problem[46].

*Gweithredu ar y cyd*

75. Daeth llawer o dystiolaeth i law'r Pwyllgor ynghylch yr angen i weithredu ar y cyd er mwyn mynd i'r afael â heriau amgylcheddol penodol. Yn ôl Asiantaeth yr Amgylchedd:

> It is important with regards to meeting water framework directive obligations and tackling issues of climate change that farmers co-operate to deliver the public goods required.

76. Roedd yr RSPB yn cytuno â'r safbwynt hwn ynghylch manteision gweithredu ar y cyd o ran tirweddau neu ddalgylchoedd. Dywedodd:

> … Water and biodiversity management in particular are issues that cross farm boundaries … so, a co-operative approach would be appropriate[47].

---

42 *Tystiolaeth lafar* Undeb Amaethwyr Cymru
43 *Tystiolaeth ysgrifenedig* Undeb Amaethwyr Cymru
44 *Tystiolaeth lafar* Yr RSPB
45 *Tystiolaeth lafar* Asiantaeth yr Amgylchedd
46 *Tystiolaeth lafar* Yr RSPB

77. Soniodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol hefyd am ddulliau cydweithredol a chyfeiriodd, er enghraifft, at sicrhau manteision i fioamrywiaeth ar dir comin. Dim ond drwy gael cyfraniad gan yr holl gominwyr y gellir gwneud hynny.

78. Roedd teimlad y gallai cydweithio roi gwerth ychwanegol i'r gwaith o reoli tir drwy ddod â manteision economaidd i ffermwyr – trwy fentrau masnachu ar y cyd, er enghraifft.

> If you can get a group of farmers to work together on environmental benefits, you can encourage them to move on to looking at the marketing and economic benefits of working together[48]

79. Trafododd Cyngor Cefn Gwlad Cymru brosiect mynyddoedd Cambrian. Megis dechrau y mae'r prosiect hwnnw, ond mae'n ceisio annog cydweithio er mwyn dod â gwaith marchnata ac amgylcheddol ynghyd gan gryfhau'r economi gwledig a lles cymdeithasol y bobl sy'n byw yn yr ardaloedd dan sylw[49].

*Dull wedi'i dargedu*

80. Roedd nifer o'r tystion yn pryderu y byddai dull gofodol wedi'i dargedu yn hepgor nifer o reolwyr tir. Yn ôl NFU Cymru:

> You would end up with positive benefits in the targeted areas, but there could actually be an undermining of the environment in those areas outside of the targeted areas[50]

81. Cytunai Undeb Amaethwyr Cymru â'r farn hon [51].

82. Fodd bynnag, roedd Asiantaeth yr Amgylchedd yn gryf o blaid dull wedi'i dargedu, a dywedodd fod angen hynny er mwyn datrys problemau penodol megis ansawdd dŵr a rheoli risg llifogydd. Yn ôl yr RSPB, byddai dull o'r math hwn, y cyfeiriwyd ato fel dull sy'n 'ffocysu', yn golygu cyflwyno'r amodau cywir yn y llefydd cywir. Ar y llaw arall, roedd 'targedu' yn awgrymu y byddai'r arian yn cael ei wario yn llai eang yn ddaearyddol.

83. Tra'r oedd yn cefnogi'r dull wedi'i dargedu, nid oedd yr RSPB am weld targedu daearyddol:

> … but that we look at the priorities and let them guide us to the places where we need interventions

*Integreiddio*

84. Croesawodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru y ffaith bod yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar ddatblygu dull integredig. Byddai hyn yn ffordd effeithiol o sicrhau rhagor o ganlyniadau o'r buddsoddiad ac yn arwain at nifer o fanteision gwahanol. Cyfeiriodd Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd at yr angen i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau presennol er mwyn sicrhau'r manteision niferus sy'n angenrheidiol[52].

*Hyblygrwydd*

85. Roedd y diffyg hyblygrwydd o fewn y cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn cael ei ystyried yn broblem, a theimlai'r tystion ei bod yn bwysig datrys hyn yn yr adolygiad.

---

[47] *Tystiolaeth lafar* Yr RSPB
[48] *Tystiolaeth lafar* Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
[49] *Tystiolaeth lafar* Cyngor Cefn Gwlad Cymru
[50] *Tystiolaeth lafar* NFU Cymru
[51] *Tystiolaeth lafar* Undeb Amaethwyr Cymru
[52] *Tystiolaeth lafar* Asiantaeth yr Amgylchedd

86. Roedd yr RSPB yn awyddus i bwysleisio bod angen darparu'r amodau cywir yn y llefydd cywir. Nid dyna'r sefyllfa ar hyn o bryd, yn enwedig yn yr ardaloedd lle mae rhywogaethau'n dirywio.

> The Tir Gofal agreements that are delivering at the moment often use the special projects option, which allows flexibility. Most of the Tir Gofal agreements that are delivering on biodiversity have been done through special projects, not through the mandatory prescriptions. The new scheme should have less mandatory options and a more menu-based series that the project officer could create in dialogue with the farmer, fitting the farmer's economic enterprise and also meeting some of the other biological and environmental objectives[53].

*Swyddogion prosiect*

87. Roedd y tystion yn credu bod swyddogion prosiect yn hanfodol er mwyn datblygu cynlluniau amaeth-amgylcheddol llwyddiannus. Ym marn llawer, mae arbenigedd y swyddogion hyn a'r amser y maent yn ei dreulio'n gweithio gyda ffermwyr yn amhrisiadwy, nid yn unig er mwyn sicrhau cefnogaeth y tirfeddiannwr, ond hefyd i ddatblygu camau gweithredu sy'n addas i'r lleoliad dan sylw. Serch hynny, roedd y tystion yn cydnabod bod hyn yn debygol o arwain at gynnydd yn y costau gweinyddol. Roedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn benodol yn credu bod y gost ychwanegol hon yn fuddsoddiad gwerthfawr, yn enwedig os bydd y cynlluniau wedi'u seilio ar ganlyniadau.

88. Fodd bynnag, roedd NFU Cymru yn pryderu y byddai'r goblygiadau o ran y gost yn golygu na fyddai adnoddau ar gael ar gyfer gwaith ymarferol. Cyfeiriodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru hefyd at y ffaith y byddai mwy o gyfraniad gan swyddogion prosiect yn arwain at gostau uwch, ond ei bod yn bwysig bod swyddogion prosiect yn cyfrannu er mwyn rhoi gwybod i bobl am y sefyllfaoedd diweddaraf[54].

*Adnoddau*

89. Dywedodd y tystion wrth y Pwyllgor mai'r ffordd orau o sicrhau bod y canlyniadau angenrheidiol yn cael eu cyflawni oedd drwy sicrhau bod digon o arian ar gael ar gyfer cynlluniau Echel 2. Soniodd yr RSPB pa mor boblogaidd y cynllun Tir Gofal, yng nghyd-destun nifer y ffermydd sydd ar y rhestr aros i fod yn rhan ohono a'r arian cyfyngedig sydd ar gael. Ynghyd â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac undebau'r ffermwyr, cyfeiriodd yr RSPB at y sicrwydd o ffrydiau ariannu sy'n dod yn sgil bod yn rhan o gynllun o'r fath.

## Y casgliadau a'r argymhellion

*Casgliadau*

1. Mae'r Pwyllgor yn croesawu adolygiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r cynlluniau Echel 2. Mae'n credu bod yr adolygiad hwn yn amserol, nid yn unig o ran yr heriau amgylcheddol sy'n wynebu cefn gwlad Cymru ond hefyd o ran y diwygiadau i'r Polisi Amaethyddol Cyffredinol yn y dyfodol. Mae'r Pwyllgor yn falch o weld y pwyslais ar yr heriau amgylcheddol sy'n wynebu cefn gwlad Cymru. Teimlwn y bydd y pwyslais hwn yn gymorth i sicrhau bod blaenoriaethau'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol yng Nghymru yn cyd-fynd yn well â blaenoriaethau'r Comisiwn Ewropeaidd a chroesawn y cyfle a gafwyd yn sgil yr adolygiad i drafod y materion hynny.

[53] Tystiolaeth lafar Yr RSPB
[54] Tystiolaeth lafar Cyngor Cefn Gwlad Cymru

2. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y cynlluniau presennol wedi bod yn llwyddiannus mewn nifer o ffyrdd, a'u bod wedi arwain at rywfaint o fanteision o ran bioamrywiaeth, annog rhywfaint o newid diwylliant yn y diwydiant amaethyddol a darparu manteision cymdeithasol-economaidd. Fodd bynnag, mae'r pwyllgor yn pryderu'n arw nad yw'r cynlluniau Echel 2 presennol yn cyd-fynd â'r targedau sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn *Strategaeth Amgylchedd Cymru*, gyda llawer o'r rheini'n gysylltiedig â thargedau ehangach a bennir ar lefel yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r Pwyllgor yn pryderu hefyd nad yw'r prosesau monitro wedi bod yn ddigonol ac nad yw'r rheini'n gallu rhoi sylfaen dystiolaeth i asesu cynnydd y cynlluniau.

3. Mae'r Pwyllgor yn credu bod y dirywiad mewn bioamrywiaeth yn fater hynod o bwysig a bod gan reolwyr tir gyfraniad allweddol i'w wneud i geisio lleihau'r dirywiad mewn rhywogaethau ac yng nghyflwr cynefinoedd Cymru. Rhaid i gynlluniau amaeth-amgylcheddol gyrraedd targedau bioamrywiaeth, sy'n un o'r prif ganlyniadau a nodir yn *Strategaeth Amgylchedd Cymru*.

Mae'r Pwyllgor yn credu bod yn rhaid sefydlu rhaglenni monitro digonol cyn gynted â phosibl er mwyn deall effaith y cynlluniau, mesur eu llwyddiant ac asesu eu cyfraniad at amcanion amgylcheddol Cymru. At hynny, mae'n hanfodol bod y cynlluniau hyn yn gallu dangos canlyniadau pendant a dangos eu bod yn darparu er budd y cyhoedd yn sgil y cyllid a fuddsoddwyd.

*Argymhellion*

1. Mae'r pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn sicrhau bod prosesau monitro ac adrodd digonol yn eu cael sefydlu ar frys er mwyn olrhain cynnydd unrhyw gynlluniau yn y dyfodol ochr yn ochr â *Strategaeth Amgylchedd Cymru* a thargedau ehangach yr Undeb Ewropeaidd. Rhaid i'r cynlluniau allu dangos canlyniadau pendant a dangos eu bod yn darparu er budd y cyhoedd.

2. Mae'r Pwyllgor yn credu bod yn rhaid cael targedau ac amcanion clir a dealladwy ar gyfer cynlluniau'r dyfodol, a rhaid gallu mesur y rhain.

3. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod y broses adolygu wedi colli momentwm ers iddi gael ei thrafod yn wreiddiol, ac mai ychydig yn unig o gynnydd a wnaed. Teimlwn hefyd nad yw'r rhanddeiliaid wedi cael eu cynnwys yn ddigonol ac mae hyn wedi golygu ei bod yn hynod o anodd iddynt asesu'r dewisiadau sydd ar gael. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn trafod yn rheolaidd â'r rhanddeiliaid sy'n rhan o'r broses hon er mwyn sicrhau bod y cyfranwyr allweddol yn cytuno â'r broses adolygu ac yn ei chefnogi.

4. Wrth ymateb i'r dystiolaeth a ddaeth i law, a chan ystyried y prinder manylion sydd ar gael, y dewis y byddem yn ei ffafrio yn y tymor byr yw dewis 1b. Credwn y byddai unrhyw newid mawr i'r trefniadau presennol yn amharu'n ddifrifol ar y diwydiant amaethyddol, yn enwedig ar yr ucheldiroedd, a dylid cael cyfnod sylweddol o amser i baratoi ar gyfer newidiadau o'r fath. Hoffem weld Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflwyno camau i wella gallu'r cynllun Tir Mynydd i sicrhau canlyniadau amgylcheddol. Dylid gwneud rhywfaint o newidiadau i Tir Gofal er mwyn sicrhau bod y cynllun hwn hefyd yn cyrraedd targedau allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dylid targedu unrhyw arian a fydd ar gael yn y dyfodol pe bai Tir Cynnal yn dod i ben er mwyn sicrhau gwelliannau o dan y cynllun Tir Gofal neu er mwyn edrych ar gynlluniau peilot. Dylai'r cynlluniau geisio sicrhau canlyniadau clir sy'n darparu er budd y cyhoedd. Fodd bynnag, ni fydd y trefniant hwn yn dderbyniol yn y tymor canolig i'r tymor hir, ac mae'r Pwyllgor yn teimlo ei bod yn hanfodol paratoi ffermwyr ar gyfer diwygiadau i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn y dyfodol.

5. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn edrych ar ddewis 1b ar hyn o bryd, gyda golwg ar roi model sydd wedi'i seilio ar ddewis 2 ar waith ar ôl 2013.

6. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu trefniadau pontio addas dros gyfnod o amser a fydd yn galluogi'r diwydiant i addasu i'r newidiadau sy'n deillio o'r adolygiad ac i gyflwyno'r newid diwylliannol sy'n angenrheidiol. Dylai'r trefniadau hyn gynnwys hyfforddiant ac arweiniad sylweddol. At hynny, dylid rheoli'r trefniadau pontio'n ofalus er mwyn sicrhau parhad yn y trefniadau presennol.

7. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnal trafodaethau manwl ar natur cynlluniau amaeth-amgylchedd a'r prosiectau y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cefnogi ar ôl 2013. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen cynnal y trafodaethau hyn ar frys er mwyn arwain at newid diwylliannol yn y diwydiant, newidiadau mewn dulliau amaethyddol a newid yn agwedd y diwydiant tuag at gynnal a chadw amgylchedd Cymreig mor amrywiol a chyfoethog.

8. Hoffai'r Pwyllgor hefyd weld yr elfennau a ganlyn yn cael eu hymgorffori mewn unrhyw gynlluniau:

- **Dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau** gyda phrosesau monitro cysylltiedig i sicrhau y gellir cymryd y camau mwyaf addas yn y llefydd cywir ac ar gyfer y rhywogaethau a'r cynefinoedd cywir. Yn yr un cyd-destun, dylai'r cynlluniau fod yn **hyblyg**.

- **Dull sy'n cynnwys haenau**, ac yn galluogi pob rheolwr tir i gyfrannu i'r haen isaf, gyda chynlluniau mwy manwl a phenodol ar gyfer yr haen uwch.

- Elfen **genedlaethol** – tra bo'r pwyllgor yn cytuno bod angen **rhywfaint o dargedu** er mwyn mynd i'r afael â heriau amgylcheddol penodol, megis ansawdd dŵr neu fioamrywiaeth ar dir comin, rydym yn teimlo y byddai darparu fframwaith cenedlaethol yn sicrhau y gellir rhoi sylw i'r heriau ledled y wlad.

- Dylai cymhellion eraill ar gyfer **gweithredu ar y cyd** fod yn elfen allweddol o unrhyw gynlluniau diwygiedig, gyda golwg ar fynd i'r afael â phroblemau penodol o ran tirweddau neu ddalgylchoedd. Byddem hefyd yn hoffi gweld gwell integreiddio gydag echelau eraill y Cynllun Datblygu Gwledig er mwyn galluogi ffermwyr sy'n cydweithredu i ychwanegu gwerth i'w cynnyrch drwy farchnata neu gynnal gweithgareddau economaidd ar y cyd.

- Dylai **integreiddio** fod yn rhan ganolog o unrhyw gynllun yn y dyfodol, er mwyn sicrhau nifer o fanteision gwahanol – er enghraifft, drwy annog gweithgareddau sy'n arwain at fanteision i fioamrywiaeth, carbon pridd ac ansawdd dŵr.

- Dylai **swyddogion prosiect** fod yn ganolog wrth ddarparu'r cynllun a chredwn y dylid buddsoddi yn amser swyddogion prosiect er mwyn sicrhau bod ffermwyr yn cymryd y camau cywir ac yn sicrhau'r canlyniadau gorau i'w ffermydd.